

## Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 91

### Key Language

byddaf (in habitual sense)  
cystal  
peth

### New Words

sbel...	a while
trueni	a shame, a pity
diflas ar y naw	exceptionally boring
ceith (NW form of caiff)	s/he gets
dylset ti fod wedi	you should have
cyflogi	to employ
des i ar ei thraws hi	I came across her
gor-ymateb	to over-react
wyneb yn wyneb	face to face
goddef	to tolerate, to stand
cenfigennus	jealous
hwyliau go lew	fairly good spirits
eto	yet
cawlach	a mess
mae fy nghlustiau i'n canu	my ears are buzzing
cadair olwyn	a wheel chair
tynnu côt	to take off a coat (literally to pull a coat)
cystal	as well as
loes (gloes)	grief, anguish
tystysgrif geni	a birth certificate

### Golygfa 1

Brian asked Wendy why she didn't tell him earlier that she was pregnant with Frank.

Brian - Pam na fuaset ti wedi dweud rhywbeth wrthyf i yn gynt?

Wendy - Achos fy mod i'n beco am dy ymateb di...You weren't exactly enamoured when I had Vicky...You always gave the impression that she was an intrusion into your life...That she was some kind of unwanted burden...And I was afraid that you'd force me to get rid of him...Right? Get it?

Sounds like a plausible enough excuse, but is that the only reason she didn't tell him?

Well, if there ever was any question in Brian's mind, it's not long before Chris plants a seed of doubt in his mind about Frank's paternity.

Chris - Little Frank. 'Bach yn od, wyt ti ddim yn meddwl?

Brian - Ei bod hi heb sôn wrthyf i? Ydy, mae hi...Mae hi'n od iawn...

Chris - Dyna ti ynte...Question answered.

Brian - Dwyt ti ddim yn meddwl mai fy mabi i ydy o, wyt ti?

Chris - Wyt ti?

---

### Main Grammatical Point

Look at the sentence: Mi fyddaf i'n galw i'w weld o

The form *byddaf i* looks like the future tense, but it is in fact also used for a habitual action. This means that you use it when you do something regularly, or as a habit, hence habitual. This aspect of the tense doesn't exist in English - we just use the present instead. It's OK to use the present tense in Welsh too, but it's good to recognise the habitual.

Here are some examples of its use:

I swim every Wednesday  
But  
I'm swimming

Mi fyddaf i'n nofio bob dydd Mercher  
Dw i'n nofio

---

Chris of course has been arrested for assaulting a policewoman, so look out this week for a lot of courtroom language. Here are some common terms you will hear:

arestio	to arrest
carchar	a prison
achos llys	a court case
cyhuddo	to accuse
euog	guilty
di-euog	not guilty
cyfreithiwr	a solicitor
cyfreithwraig	a woman solicitor

---

'Cystal' is a word that we use to mean 'as good' - but you can also say 'mor dda'.

*Wnaeth Prys chwarae'n dda iawn ddoe, ond dydy e ddim cystal heddiw.*  
Prys played very well yesterday, but he's not as good today.

---

We think of the word 'peth' as meaning 'thing'. But it can also be used to mean 'some' or 'something'.

*'Dw i'n mynd allan i nôl peth'* doesn't mean 'I'm going out to get a thing'. But 'I'm going out to get some'.

And:

*'Mae peth ar ôl'* means 'there's some left'

---

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 271

Brian comes home from work in a foul mood.

Meanwhile, Jenny and Agnes put the world to rights and discuss the shenanigans going on in everyone's lives.

### Geirfa

sbel...	a while
diflas ar y naw	exceptionally boring
ceith (NW form of caiff)	s/he gets
dylset ti fod wedi	you should have
cyflogi	to employ
des i ar ei thraws hi	I came across her
gor-ymateb	to over-react
wyneb yn wyneb	face to face
goddef	to tolerate, to stand
cenfigennus	jealous
hwyliau go lew	fairly good spirits
cadair olwyn	a wheel chair
tynnu côt	to take off a coat (literally to pull a coat)
dim clem	no idea
gwyllo	to watch
trueni	a pity
eto	yet
cawlach	a mess, a fiasco
conan	to complain
mae fy nghlustiau i'n canu.	my ears are buzzing
ymwneud â	to associate with

### Golygfa 1

Agnes - Oes rhywun yn eistedd fan hyn?

Jenny - Nac oes, na. Cymer gadair...

Agnes - Diolch...Sut mae pethau?

Jenny - Iawn. Dw i wedi bod i ffwrdd ar gwrs yn Llundain...

Agnes - Roeddwn i'n amau fy mod i heb dy weld ti 'bytu'r lle ers sbel...

Jenny - Ie - cwrs wythnos yn Llundain a chwrs diflas ar y naw oedd o hefyd...

Agnes - So, wyt ti heb gael rhagor o hasl gan y bachgen Chris yna wedi hynny?

Jenny - Naddo. Dw i heb hyd yn oed ei weld o ers 'dwn i ddim pryd...Mae o wedi cadw reit allan o fy ffordd i...

Agnes - Wyt ti wedi bod yn osgoi'r garej ynte?

Jenny - Ydw. Gymaint ag y gallaf i. Ond os dw i'n gweld Brian yno, mi fyddaf i'n galw heibio wrth gwrs...Wyt ti'n deall bod Chris wedi cael ei gyhuddo o ymosod ar blismones onid wyt...?

Agnes - Roeddwn i wedi clywed...

Jenny - Ofnadwy ynte?

Agnes - Bydd e'n bownd o wynebu achos llys.

Jenny - A gobeithio y ceith o ei yrru i'r carchar hefyd. Mi wnaeth o fy mywyd i yn uffern...

Agnes - Y busnes yna yn dy fflat di. Dylset ti fod wedi riportio hynny i'r heddlu...Dwedais i wrthyt ti am wneud, Jenny...

Jenny - Fo stabiodd ei hun, Agnes...Ond beth tasai Chris yn honni mewn llys barn mai fi stabiodd o?

Beth wedyn? Pwy fuasai'r heddlu yn ei goelio? Fo neu fi? Dydy'r hogyn ddim yn gall...

Agnes - Dw i'n deall y broblem...

Sa i'n deall pam mae Brian yn mynnu ei gyflogi e.....

Jenny - Mae yna si yn mynd rownd am Brian hefyd...

Agnes - A Wendy Keating, ie?

Jenny - A babi? Hogyn bach...Ydy hynny'n wir...?

Agnes - Ydy...Des i ar ei thraws hi pwy ddiwrnod...Mae rhywbeth 'bytu'r fenyw yna sydd wedi mynd dan fy nghroen i erioed...Dw i'n treal ei chau hi ma's o fy mywyd i, ond...

Jenny - Anghofia hi. Wyt ti'n hapus hefo Jac onid wyt ti?

Agnes - Ydw...Mi ydw i...

Jenny - A dwyt ti ddim yn gorfod gweithio efo Wendy ddim mwy...Felly, mewn gwirionedd, mae hi allan o dy fywyd di yn llwyr, onid ydy?

Agnes - Ydy, sbo...Wyt ti'n iawn: efallai fy mod i'n gor-ymateb...Ond am ryw reswm...

Jenny - Beth?

Agnes - Dw i'n ffael ei goddef hi...Pan ddes i wyneb yn wyneb â hi yn y farchnad, roedd hi mor ofnadwy o 'smug'...

Jenny - Wyt ti erioed yn teimlo'n genfigennus?

Agnes - Cenfigennus? O Wendy Keating? Nac ydw i! Yffach, Jenny - am beth i ddweud! Roeddwn i'n meddwl dy fod ti'n fy adnabod i'n well na hynny...

Jenny - Sori.

Gwrandda - sut mae Jac? Ydy o mewn hwyliau go lew?

Agnes - Ydy...diolch i ti am ofyn.

Jenny - Wnest ti sôn ryw fis neu ddau yn ôl, ei fod o'n dechrau meddwl chwilio am rywbeth i'w wneud...Chwilio am ryw fath o waith...rhyw job...

Agnes - Ddim job fel job naw tan bump...Ond mae diddordeb gyda Jac mewn dechrau busnes eto....

Jenny - Ceir ail-law?

Agnes - Na...Na, sa i'n credu hynny...Ond busnes o ryw fath...Smo Jac y math o foi sy'n fodlon gweithio i neb arall...Mae'n lot gwell gyda fe fod yn fos arno fe ei hunan, dw i'n credu...

Jenny - Gobeithio daw o o hyd i rywbeth y bydd o'n leicio ei wneud...

Agnes - Ie. Dw i'n credu ei fod e'n teimlo dipyn bach yn ddiflas...Y cyfan mae e'n ei wneud yw eistedd yn y tŷ trwy'r dydd...Neu fynd lawr i'r Yacht Club am ginio weithiau...Neu fynd am dro yn ei gadair olwyn...Ond smo fe byth yn mynd yn bell...

Jenny - Diflas iawn, dw i'n siwr. Rydyn ni i gyd angen llenwi ein hamser rywsut neu'i gilydd, onid ydyn?

Agnes - Ydyn - mae hynny'n ddigon gwir.

## Golygfa 2

Wendy - You're back, thank God...Be a love, Bri, and fetch me a glass of water?...Breastfeeding always makes me really thirsty for some reason....Diwrnod da yn y garej?

Brian - Oedd...lawn...Dyma chdi.

Wendy - Diolch. Wyt ti am dynnu dy got di ynte? Sori, ond sa i wedi dechrau cwicio dim byd i swper eto...Dw i'n teimlo'n completely wiped out...Last night's lack of sleep has finally caught up with me...

Brian - Gallaf i ffonio am curry take-away...

Wendy - Ych! Allwn i ddim wynebu Indians...

Brian - Chinese ynta...

Wendy - Os ti moyn...But I think I'll opt for some baked beans on toast if you don't mind...

Brian - Siwtia di dy hun...

Wendy - Bad day at the office, love?

Brian - Ddim gwaeth nag arfar.

Brian - Vicky! Tro'r hyrddi-gyrddi sŵn yna i lawr wnei di?

Wendy - What's the matter?

Brian - Wyt ti'n siwr nad wyt ti eisiau Chinese rwan?

Wendy - Ydw, dw i'n berffaith siwr.

Brian - Wel, dw i am fynd allan i nôl peth rwan - dw i ar lwgu. Iawn?

Wendy - Iawn. Wel, wel, Frank. Beth sydd yn bod ar dadi heno ynte? Hmm?

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 272

Rhodri's been ignoring Jac for months now, but is delighted to be celebrating his birthday at the bowling alley with Agnes and Brian. He has a great time, but Agnes reveals to Brian that she's worried he might be having problems at school.

### Geirfa

dim clem	no idea
gwyllo	to watch
trueni	a pity
eto	yet
cawlach	a mess, a fiasco
conan	to complain
canu	to buzz as well as to sing
ymwneud â	to associate with

### Golygfa 1

Rhodri - Ypiii! Saith!  
Brian - Go dda rwan Rhodri!  
Rhodri - Dy dro di nawr, dad...  
Brian - Beth am weld os gallaf i gael full strike, ia?  
Rhodri - Mam! Dere i weld dad yn treal cael full strike...  
Brian - Does gennyf i ddim clem, cofia, Rhodri....  
Rhodri - Mam - ti'n gwyllo?  
Agnes - Ydw, Ydw...Dw i'n gwyllo, Rhodri...  
Brian - Faint ges i?  
Rhodri - Dau...  
Agnes - Trueni...  
Rhodri - Efallai y cei di fwy o lwc ar yr ail dro...  
Agnes - Brian...?  
Brian - Hmmm?  
Agnes - Diolch i ti am ddod gyda ni heno...  
Brian - Doedd o ddim yn gwestiwn o beidio dod siwr! Fuaswn i byth yn colli pen-blwydd Rhodri, paid â siarad yn wirion...  
Agnes - Roedd e wedi edrych ymlaen shwd gymaint at gael dod heno...Roedd e'n edrych ymlaen at hala amser gyda ti...  
Brian - Dw i wedi bod yn edrych ymlaen hefyd.  
Rhodri - Co ti'r bêl, dad! Co ti...  
Brian - Diolch, Rhods. Wyt ti'n meddwl gwnaf i daro'r cwbl lot y tro yma?  
Rhodri - Wrth gwrs! Wyt ti'n brill!  
Naw! Dyna dy sgor uchaf ti eto!  
Brian - O leiaf dw i'n gwella...  
Rhodri - Dy dro di nawr, mam...  
Agnes - Dyma beth fydd cawlach nawr...! Mae fe'n meddwl y byd ohonot ti, Brian...  
Brian - Dw i'n gwybod...A dw i'n meddwl y byd ohono fo hefyd...Fo a Beca...  
Agnes - Rhaid i ti dreal gwneud mwy gyda nhw...  
Brian - Dw i erioed wedi gwrthod, Agnes.  
Agnes - 'Nawr bod gyda ti fab arall, dw i'n meddwl...Dw i ddim am i Rhodri feddwl dy fod ti'n mynd i'w gau e ma's o dy fywyd di...  
Brian - Paid â siarad yn hurt. Fuaswn i byth yn gwneud hynny...  
Agnes - Sa i wedi dweud wrthyti ti...Ond mae Rhodri'n cael problemau yn yr ysgol...  
Brian - Problemau? Pa fath o problemau?  
Agnes - Dw i'n ffaelu siarad nawr...ond ffoniaf i ti eto ac egluro'r cwbl...O'r gorau?

### Golygfa 2

Agnes - ...a sa i moyn unrhyw gonan. Gwely nawr. Mae ysgol gyda ti bore fory, cofia...

Rhodri - Sa i'n teimlo fel mynd i'r gwely nawr, mam....

Agnes - Cer lan star i newid i dy byjamas a brwsio dy ddannedd...

Rhodri - O'r gorau...

Agnes - A Rhodri?

Rhodri - Beth?

Agnes - So ti wedi anghofio rhywbeth?

Rhodri - Naddo. Beth?

Agnes - Dweud nos da wrth Jac.

Rhodri - O, ie...

Agnes - Dywed e ynte...

Rhodri - Nos da...

Jac - Nos da, boi...Wyt ti am i fi dywallt wisgi i ti?

Agnes - Plis. Gwna fe'n un mawr...

Jac - Sut aeth hi heno ynta?

Agnes - Lot o sw'n a lot o joio. Rhodri enillodd - diolch byth!

Jac - Dyna sut mae hi i fod ar dy ben-blwydd ynte? A sut hwyliau oedd ar Brian?

Agnes - Iawn.

Jac - Beth oedd ganddo fo i'w ddweud?

Agnes - Dim lot...Chawson ni ddim llawer o gyfle i sgwrsio...Roedden ni'n rhy brysur yn cadw golwg ar Rhodri a'i ffrindiau...

Jac - Dyma chdi dy wisgi...

Agnes - Diolch. Iechyd da!

Jac - Iechyd da!

Agnes - Yffach, mae fy nghlustiau i'n canu. Roedd sw'n ofnadwy yn y bowling alley yna...Diolcha dy fod ti wedi gallu osgoi'r cyfan...

Jac - Sa fo ddim wedi bod yn syniad da i fi fod yna na fuasai?

Agnes - Pam ddim? Edrycha...Mae Brian a Wendy yn eitem...Mae dau o blant gyda nhw erbyn hyn...Maen nhw'n deulu...A rydyn ni'n deulu hefyd...A rhyw ddydd, bydd rhaid i ni ddechrau ymwneud â'n gilydd...

Jac - Dim ots gennyf i...Ond dydw i ddim yn gweld Brian yn barod i chwarae happy families rywsut...

Agnes - Mae Brian yn hapus gyda Wendy...Rydyn ni i gyd wedi symud ymlaen...

Jac - Pawb heblaw am Rhodri...

Agnes - Fe naiff e hefyd - gydag amser...Ond mae pethau'n anodd iddo fe ar hyn o bryd...

Jac - Pam ydy o heb siarad efo fi ers bron i ddau fis ynte?

Agnes - Gad i fi gael gair arall gyda fe cyn y penwythnos...Bydd popeth yn iawn.

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 273

Brian makes it clear that he doesn't believe that Frank is his child, and it looks like Chris is starting to obsess about Jenny again...

### Geirfa

cystal  
loes (gloes)  
tystysgrif geni

as well as  
grief, anguish  
a birth certificate

### Golygfa 1

Chris - Bore da...

Jenny - Oh!

Chris - Haia...

Jenny - Cer oddi yma wnei di?

Chris - I'm just being civil...Hey, come on, lovely lady...

Jenny - Rwyf ti wedi bod yn disgwyl amdanaf i onid do?

Chris - Nac ydw...Hei, paid â phanicio nawr...

Jenny - Dydw i ddim yn dy goelio di!

Chris - Sa i wedi bod yn disgwyl amdanat ti - onest! It's just a total coincidence...Dw i ar fy ffordd i'r gwaith...Dyna'r cyfan...

Jenny - Dydw i ddim yn dy gredu di, Chris.....

Chris - It's the truth...Jenny, look -

Jenny - Na! Edrycha di - jest cadw allan o fy ffordd i...

Chris - Dyna beth dw i wedi ei wneud ynte? Be fair! I'm just being friendly! O.K.?

Jenny - Gofala rhag ofn i ti stabio dy hun.

Chris - Damwain oedd hynny...

Jenny - Na Chris! Wnest ti stabio dy hun yn fwriadol...Wyt ti'n gwybod hynny cystal â fi. A fi ydy'r ffŵl am beidio â riportio'r peth i'r heddlu.

Chris - You didn't report it coz you were protecting me. People do that to those they love...

Jenny - Wnes i ddim dweud wrth yr heddlu er mwyn amddiffyn fy hun Chris. Achos dy fod ti'n 'nuts'! Dyna pam!

Chris - Edrycha: we had something going between us, right? Roeddwn i'n meddwl ein bod ni...Wel, anyway...It took me some time to realise that there was only one person in this relationship - me.

Jenny - Na. Wyt ti'n 'rong, Chris. Ni fu yna erioed ddim byd rhyngddon ni...Roedd y cwbl i gyd yn dy ben di...

Chris - Anyway...Nice to see you again, doc...

Jenny - Dw i'n mynd i'r gwaith rwan... Cer yn ôl ar y pafin...allan o fy ffordd i.

Chris - Sori am bopeth, Jenny...Dw i wir yn sori am roi loes i ti...

Jenny - Diolch am gyfaddef hynny...

Chris - I just lost my head...

Jenny - Fel gwnest ti yn y Crown...Yn ystod y lock-in?

Chris - S'pose...I'm up in court in five weeks time you know.

Jenny - 'Dwn i ddim beth i'w ddweud...'Does yna ddim byd i'w ddweud nac oes?

Chris - Pob lwc efallai?

Jenny - Ta-ta Chris. Gad lonydd i mi.

Chris - ...You hard nosed little bitch.

### Golygfa 2

Wendy - O, yeah? And what time do you call this?

Brian - Ymm... Pum munud ar hugain wedi un-ar-ddeg. Pam?

Wendy - Dwedaist ti...You said... I'm so tired I can hardly speak...

Brian - Paid â dechrau swnian y munud dw i trwy'r drws - reit...?

Wendy - Na, Brian...Dwedaist ti ar y ffôn... Wnest ti addo ar y ffôn y byddet ti'n dod yn ôl i swper am wyth...

Brian - Wnes i ddim addo hynny...Y cwbl ddwedais i oedd efallai y buaswn i'n dod yn ôl am wyth...

Wendy - I took it that you meant "yes, I will be back by eight o'clock - promise" ...

Brian - Ddwedais i erioed y ffasiwn beth! Wnes i erioed addo hynny...

Wendy - Wel, wnes i swper i ti! And come half past eight pan oedd dim sign ohonot ti gwnes i dreal dy mobile di, which was obviously switched off...So, where the hell have you been?

Brian - Client...

Wendy - Dw i'n ffael goddef hyn...Dw i'n mynd i'r gwely...Bydd Frank yn siwr o ddeffro mewn 'bytu dwy awr and I'll be up half the night with him anyway...

Brian - Gwranda, cyn i chdi fynd...Mae rhywbeth dw i eisiau ei ofyn...

Wendy - Wel? Dere ymlaen, dw i'n hollol knackered...

Brian - Eistedda am funud...

Wendy - Don't start playing silly buggers, Brian...I'm not in the mood tonight...

Brian - Frank.

Wendy - Ie? Beth am 'bytu fe?

Brian - Pryd yn union gafodd o ei eni? Pryd mae ei ben-blwydd o?

Wendy - Awst y 17th - yr ail ar bymtheg.

Brian - Oes gennyf ti dystysgrif geni?

Wendy - Oes, wrth gwrs.

Brian - Dw i eisiau ei weld o.

Wendy - Pam? You don't think that Frank's your baby, do you? Is that it? Is that what you're getting at Brian? Is that what's been mulling in your head these past few days? And I thought you'd changed!

Brian - Mae gennyf i hawl gofyn, onid oes?

Wendy - Yeah, absolutely...you prick!

Brian - Sbia ar hyn o fy safbwynt i am funud wnei di?

Wendy - Dy fabi di yw Frank.

Brian - Ond sut dw i fod i wybod hynny?

Wendy - Achos fy mod i'n dweud wrthyt ti.

Brian - Ond sut dw i fod i wybod hynny, Wendy?

Wendy - I'm not even gonna dignify that question with an answer, because no doubt you can already guess what it would be! Nawr, nos da!

## Synopsis

Brian, Agnes and Rhodri celebrate a fun evening together at the bowling alley to celebrate Rhodri's birthday.

It seems that life couldn't be any happier, but Agnes has her concerns about Rhodri and shares them with Brian for the first time.

### Test yourself

1. Chris was charged with assaulting a policewoman. Is that?
  - (a) **Cafodd ei gyhuddo o daro plismones**
  - (b) Cafodd ei gynghori o daro plismones
  - (c) Cafodd ei gysylltu o daro plismones
  
2. A court case is?
  - (a) Cês o lus
  - (b) **Achos llys**
  - (c) Achos llym
  
3. Chris intends to plead not guilty. What would he say?
  - (a) Di-flewyn
  - (b) **Di-euog**
  - (c) Di-amynedd
  
4. Convicted criminals are often sent to a-----
  - (a) **carchar**
  - (b) cae
  - (c) coedwig
  
5. How would you indicate that there is plenty of food left?
  - (a) Mae digon o fwyd yn ôl
  - (b) Mae digon o fwyd wedyn
  - (c) **Mae digon o fwyd ar ôl**
  
6. How would you ask: 'Would you like some?'
  - (a) Wyt ti moyn hwn?
  - (b) **Wyt ti moyn peth?**
  - (c) Wyt ti moyn rhagor?